

Cryfhau Cydraddoldeb Hiliol

Canllaw Adnoddau

Awdur:

Susan Cousins

Cyd-awduron:

**Gail Thomas, Dr Sam Hibbitts,
Dr Paul Brennan, Andy Lane
a Barry Diamond**

Awst 2020

Rydym wedi penderfynu defnyddio'r term a gydnabyddir yn eang Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) drwy'r ddogfen hon, gan gydnabod bod y derminoleg hon yn cael ei hystyried yn broblemus, yn lleihaol ac nad yw'n cyfrif am hunaniaethau hen a newydd oll.

Datganiad yr Is-Ganghellor

Cipiodd llofruddiaeth George Floyd sylw'r byd ar adeg pan ddechreuodd ddod i'r amlwg fod COVID-19 yn cael effaith anghymesur ar unigolion a chymunedau pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrif ethnig ar draws y byd.

Yn erbyn y cefndir hwnnw, rhaid cydnabod a mynd i'r afael â'r boen a'r ddioddefaint brofodd pobl BAME, yr UE ac yn Rhyngwladol, yng nghydestun anghyfiawnderau parhaus a fodolai eisoes.

Mae Prifysgol Caerdydd yn benderfynol o fod yn rym sy'n cefnogi newid. Rydym yn cydnabod ac yn deall dyfnder y teimladau ac yn ymrwymedig i drawsnewid pethau i gefnogi cymuned y Brifysgol, a chymdeithas yn gyffredinol.

Rhaid i ni adnewyddu a chynyddu ein hymdrechion i gael gwared ar hiliaeth a mynd i'r afael â'r rhwystrau strwythurol sy'n bodoli o hyd i'n staff a'n myfyrwyr BAME, UE a Rhyngwladol.

Er y gall cynnydd ymddangos yn araf, ar draws y Brifysgol mae staff a myfyrwyr ymroddedig llawn cymhelliant yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r materion amrywiol rydym yn eu hwynebu.

Yng Nghaerdydd rydym yn ymrwymedig i greu cymuned sy'n seiliedig ar urddas, cwrteisi a pharch ar y cyd; cymuned lle gall pawb fod ei hun a ffynnu. Nawr, yn fwy nag erioed, rhaid i ni ganfod cryfder yn yr egwyddorion hynny.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein cryfder ymchwilio i helpu i greu byd gwell. Drwy addysg, rydym yn sicrhau bod ein llais yn cael ei glywed mewn disgwrs gyhoeddus, ac yn paratoi ein myfyrwyr i gyfrannu at gymdeithas ddemocrataidd.

Rydym yn ddiymdroi: nid oes lle i hiliaeth a gwahaniaethu yn ein cymdeithas fodern. ■

Yr Athro Colin Riordan
Is-Ganghellor:
Prifysgol Caerdydd

Rhaid i ni adnewyddu a chynyddu ein hymdrechion i gael gwared ar hiliaeth a mynd i'r afael â'r rhwystrau strwythurol sy'n bodoli o hyd . . .

Cyfiawnder Cymdeithasol yng Nghymru

Yn 2019, mewn dadl ar fynd i'r afael â hiliaeth ac anghydraddoldeb hiliol cynigiodd y Dirprwy Weinidog, Jane Hutt, i Aelodau'r Cynulliad:

‘Gefnogi’n llwyr y frwydr ryngwladol i ddiymwreiddio hiliaeth ac ideoleg hiliol’ gan ddweud bod angen i Gymru ymdrechu i fynd i'r afael â phob ffurf ar anghydraddoldeb hiliol.

Llywodraeth Cymru 9 Mai 2019. *Mynd i'r Afael â Hiliaeth yng Nghymru'n cael ei drafod yn y Cynulliad Cenedlaethol.* Ar gael yn <https://gov.wales/tackling-racism-in-wales-discussed-in-national-assembly> [Cyrchwyd: 15 Mai 2019]

Mae Addysg Uwch yng Nghymru'n wynebu heriau a ffactorau unigryw pan ddaw at fynd i'r afael â hil a chydraddoldeb;

Dengys ystadegau Llywodraeth Cymru fod 6% o'r boblogaeth yng Nghymru'n Bobl Dduon Asiaidd ac lleiafrif ethnig.

(Ar gael yn: <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/Ethnicity-by-Area-EthnicGroup>)

a bod lefelau isel o breswyliaeth BAME yn golygu bod myfyrwyr a staff yn astudio ac yn gweithio mewn sefydliadau sydd â mwyafrifoedd gwyn. ■

Hil ym maes AU

Ein sefydliadau sy'n gyfrifol, yn atebol ac yn berchen ar anghydraddoldeb hiliol, nid unigolion.

Ni allwn ganiatáu unrhyw ffurf ar hiliaeth yn y sector AU a rhaid i ni ddeall bod hon yn ymdrech gynhwysol ar y cyd. Nid yw gweithredu trawsnewidiol ond yn bosibl drwy gynnwys pawb. Ni byrdwn myfyrwyr a staff BAME, yr UE na Rhyngwladol yn unig yw sicrhau a newid hyn.

Mae'n bwysig cydnabod bod aflonyddu hiliol yn rhan o brofiad myfyrwyr a staff ar draws y sector addysg uwch. Comisiynydd Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) ymchwiliad i aflonyddu hiliol ym maes addysg uwch a chyhoeddwyd y canfyddiadau yn Hydref 2019:

Thema ailadroddus yn ein tystiolaeth oedd bod myfyrwyr a staff yn cael eu diystyru fel 'gorsensitif' a bod eu profiadau o ficro-ymosodeddau'n cael eu gweld fel digwyddiadau untro'n hytrach na phatrwm cronol a dieithriol o sarhadau ailadroddus. Dywedodd nifer o staff a myfyrwyr nad yw aflonyddu hiliol ond yn digwydd mewn ffordd amlwg. Yn rhy aml, mae sylwadau sarhaus yn cael eu cyfiawnhau gan y sawl sy'n eu dweud fel 'jôcs' neu 'gellwair'.

Mae effaith niweidiol Micro-ymosodeddau ailadroddus yn aml yn cael ei gwaethygu gan ddiffyg empathi a dealltwriaeth pan fo unigolion yn penderfynu siarad am y ffordd y maen nhw'n cael eu trin.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (t29) *Mynd i'r afael ag aflonyddu hiliol: herio prifysgolion*. Ar gael yn: <https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/tackling-racial-harassment-universities-challenged>

Ni allwn fforddio mwyach geisio diogelwch mewn daliadau hanesyddol pan fo rhethreg a gwadu'n llywio'r ffordd. Mae tystiolaeth gynyddol, i newid ein sefydliadau, mae angen nid yn unig casglu data a thystiolaeth am anghydraddoldeb ond hefyd greu amgylcheddau lle mae pobl yn fodlon cael eu herio drwy fyfyrwyr sy'n pwysleisio pwysigrwydd cynnal perthnasau gwaith iach.

Mae angen i sefydliadau addysg uwch a rhanddeiliaid allanol ddangos proses ymgysylltu amlwg o ran cyfiawnder hiliol sydd y tu hwnt i'r hyn a ysgrifennir mewn datganiadau polisi ac sy'n creu ffordd i drawsnewid diwylliant. Gwyddom fod amgylcheddau amrywiol cynhwysol yn fudd busnes a'u bod yn ychwanegu

gwerth i unrhyw sefydliad. Gwyddom fod myfyrwyr a staff BAME, yr UE a Rhyngwladol yn dod â sgiliau, gwybodaeth, profiad, gallu a dylanwad â nhw. Ac eto, mae bodolaeth barhaus anghydraddoldeb wedi bod yn amlwg ers blyneddau ac mae'n cael ei ailadrodd mewn arolygon staff, adroddiadau ymchwil ac archwiliadau. Ni allwn oedi rhag gweithredu drwy ganolbwyntio gormod ar gasglu data.

Dylai cyfathrebu ystyrlon fod wrth wraidd newid a rhaid cofio y dylai popeth a wnawn gael ei ategu gan barch, urddas a chydaddoldeb. Mae'r gallu i drafod hil mewn unrhyw sefydliad yn hanfodol ac yn allweddol i hyrwyddo newid a chreu diwylliant cynhwysol. Mae trafodaethau newydd wedi agor o ran hil a'r trafodaethau hyn a fydd yn ategu ac yn sail i bob sefydliad wrth ddod o hyd i ffordd o symud ymlaen. Mae angen gwrth-naratifau ar brifysgolion i lywio'r newid effeithiol sy'n herio'r sefyllfa sydd ohoni. Mae angen i fuddiolwyr ein systemau addysgol gynnwys myfyrwyr a staff BAME, yr UE a Rhyngwladol a'u cymunedau. ■

Cydraddoldeb Hiliol ym Mhrifysgol Caerdydd

Ni all cydraddoldeb hiliol fforddio gael ei leoli'n un lle yn unig. Nid dim ond cyfrifoldeb ambell i fyfyrwr, aelodau o staff BAME, yr UE a Rhyngwladol a chynghreiriaid ymrwymedig yw gwneud y gwaith hwn wrth gael bron dim cydnabyddiaeth na dealltwriaeth.

Mae gan rai myfyrwyr a staff BAME, yr UE a Rhyngwladol faich anweledig na all nifer o'u cydweithwyr gwyn ei weld; un y gallen nhw deimlo na allent ei drafod drwy lwybrau cymorth arferol. Gall cydweithwyr gwyn fod yn amddiffynol wrth glywed profiadau o hiliaeth; mae deialog o'r natur hon yn aml yn arwain at emosiynau dwys lle mae barn yn chael ei pholareiddio a lle daw'r mwyafrif allan o drafodaethau o'r fath heb newid yn eu hymddygiad. Gall myfyrwyr a staff BAME, yr UE a Rhyngwladol hefyd deimlo wedi'u tawelu a phrofi math o ynysu diwylliannol oherwydd y mathau hyn o ryngweithiadau.

Barn gadarn y Brifysgol yw nad oes lle i hiliaeth na gwahaniaethu mewn cymdeithas fodern. Mae gennym oll gyfrifoldeb i weithio tuag at gyfiawnder cymdeithasol. Ar hyn o bryd mae'r agenda cydraddoldeb hiliol yn cael ei harwain yn rhagweithiol gan yr Is-Ganghellor ac uwch aelodau o staff. Ers yr Adolygiad Annibynnol a wnaed gan yr Athro Dinesh Bhugra yn 2016, mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i gydraddoldeb hiliol; gan ddefnyddio'r adolygiad fel cyfle i brif-ffrydio argymhellion drwy ei strwythurau i hwyluso newid. Rhoddodd yr adolygiad fframwaith i greu sylfaen gwybodaeth a thystiolaeth a ddeilliodd o brofiadau ein myfyrwyr a'r staff BAME, yr UE a Rhyngwladol. Rydym wedi cyflawni newidiadau sylweddol gyda'r enghreifftiau a nodir yn y canllaw hwn.

Roedd adroddiad 2019 yr EHRC yn cynnwys Prifysgol Caerdydd fel astudiaeth achos o arfer da wrth sefydlu Panel Goruchwyllo Cydraddoldeb Hiliol.

“Mae Prifysgol Caerdydd wedi datblygu dull addawol sy'n cefnogi unigolion sy'n profi aflonyddu hiliol, ar draws y brifysgol, ac mae am sicrhau dysgu a gweithredu sefydliadol.”

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (t91) *Mynd i'r afael ag aflonyddu hiliol: herio prifysgolion* Ar gael yn: <https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/tackling-racial-harassment-universities-challenged> 05/12/19]

Er mwyn i gydraddoldeb hiliol ddatblygu yn y Brifysgol mae'n hanfodol i ni weithio'n agos gyda'n myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr (UM). Mewn ymateb i gais gan UM rhyddhaodd Brifysgol ddatganiad yn mynd i'r afael ag adroddiad EHRC a'r gwaith y mae'r Brifysgol wrthi'n ei wneud a'r camau nesaf y mae'n bwriadu eu cymryd:

Mae'r Canllaw Adnoddau hwn wedi'i lywio gan lenyddiaeth, ymchwil ac arfer gorau perthnasol, mae'r canllaw adnoddau hwn yn cynnwys cyfeiriadau

at ddogfennau megis: **Black, Asian and minority ethnic student attainment at UK Universities** *#ClosingtheGap* (2019), **The Race Disparity Audit** (2017), **'Where are we now'**, Advance HE (n.d.) a **'Addressing The BAME Attainment Gap: Vice-Chancellor Checklist'** Prifysgolion y Deyrnas Unedig (2019) a **'Tackling racial harassment: universities challenged'** EHRC (2019) ac mae'r rhain oll wedi dangos parhad: anghydraddoldeb strwythurol mewn addysg uwch, anghydraddoldeb hiliol ar draws y sector, lefelau isel o

gynrychiolaeth staff BAME a lefelau cyrhaeddiad is i fyfyrwyr BAME.

Caiff y gwaith o gyflawni ein strategaeth sefydliadol, **Y Ffordd Ymlaen 2018-2023**, ei lywio gan werthoedd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym am gael ein hadnabod fel prifysgol sy'n croesawu myfyrwyr o bedwar ban byd, ac o bob cefndir, gan eu cynorthwyo i fwynhau ac elwa ar addysg brifysgol werth chweil'

Tabl 1: Dangosyddion i lywio gwerthusiad byrdymor, canlyniadau tymor canolig ac effaith tymor hwy.

Menter	Canlyniad byrdymor	Canlyniad tymor canolig	Canlyniadau hirdymor
Cryfhau Cydraddoldeb Hiliol. Canllaw Adnoddau	Codi ymwybyddiaeth Cyfathrebu'r canllaw adnoddau Herio'r sefyllfa sydd ohoni	Gwella cyfranogiad Cynyddu nifer y mentrau cydraddoldeb hiliol ar draws y Brifysgol Gwella ymgysylltu â'r Panel Goruchwylio Cydraddoldeb Hiliol a 'Siarad am Gydraddoldeb Hiliol' Cydweithredu mwy ag Undeb y Myfyrwyr Cydweithredu mwy â dinas Caerdydd a'i chymunedau BAME	Cyfraddau ddiffyg parhad gwell a lleihau bylchau wrth ddyfarnu Cadw mwy o fyfyrwyr a staff Gwella cynnydd gyrfaol staff Gwella cynnydd gyrfaol myfyrwyr




Nod y Canllaw Adnoddau yw ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth o fentrau cyfredol yn y Brifysgol ac awgrymu dulliau y gellir eu rhoi ar waith ar draws y Brifysgol i flaenoriaethu ymgysylltu a chydaddoldeb hiliol. Y nod yw lledaenu sgysiau mewnol am hil ac ar yr un pryd cymryd agwedd sefydliadol tuag at gydraddoldeb hiliol sy'n grymuso pobl eraill ac yn dangos sut mae tystiolaeth ansoddol yn llywio gwell dealltwriaeth o fywydau ein myfyrwyr a'n staff BAME, yr UE a Rhyngwladol.



Rhennir y Canllaw Adnoddau hwn yn bum rhan:

- 1 **Siarad am Gydraddoldeb Hiliol**
- 2 **Panel Goruchwylio Cydraddoldeb Hiliol**
- 3 **Y Grŵp Bwlch Dyfarnu BAME**
- 4 **Mentrau Cyfredol**
- 5 **Adnoddau Defnyddiol**

Sut i wneud y mwyaf o'r canllaw hwn



Siarad am Banel Gydraddoldeb Hiliol (Panel trafod)

Tabl 2: Dangosyddion i lywio gwerthusiad byrdymor, canlyniadau tymor canolig ac effaith tymor hwy.

Menter	Canlyniad byrdymor	Canlyniad tymor canolig	Canlyniadau hirdymor
Siarad am Gydraddoldeb Hiliol Panel Trafod	Codi ymwybyddiaeth Lledaenu gwybodaeth Addysg Herio'r sefyllfa sydd ohoni Sicrhau mannau diogel i gynnal trafodaethau am hil	Gwella cyfranogiad Cydweithredu mwy ag Undeb y Myfyrwyr Cydweithredu mwy â dinas Caerdydd a'i chymunedau BAME Deall dulliau ymberthynol o gyfathrebu yn well	Cyfraddau ddiffyg parhad gwell a lleihau bylchau wrth ddyfarnu Cadw mwy o fyfyrwyr a staff Gwella cynnydd gyrfaol staff Gwella cynnydd gyrfaol myfyrwyr Ymwybyddiaeth o gysyniadau anghydraddoldeb hiliol

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (t91) Mynd i'r afael ag aflonyddu hiliol: herio prifysgolion.
Ar gael yn: <https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/tackling-racial-harassment-universities-challenged> [Cyrchwyd: 05/12/19]

Sefydlwyd Siarad am Gydraddoldeb Hiliol i hyrwyddo newid yn yr amgylchedd diwylliannol sy'n adlewyrchu profiadau amrywiol ein myfyrwyr a'n staff. Mae'n rhoi lle hanfodol i gynnal trafodaethau pwysig am hil.

Nid yw trafodaethau am hil yn tueddu i gael eu hystyried yn aml, ac mae hil yn un o'r pynciau a drafodir yn lleiaf agored oherwydd nifer o ffactorau cymhleth, gan gynnwys:

- Ofn cael eich herio
- Ofn cael eich beio
- Teimlo'n amddiffynnol
- Teimladau o euogrwydd sy'n gysylltiedig â strwythurau hanesyddol anghyfartal sy'n dal i gael effaith ar gymdeithas heddiw.

Ceir cydnabyddiaeth gynyddol fod galluogi trafodaethau am faterion sy'n ymwneud â hil yn bwysig ar bob cam o daith myfyriwr a staff BAME, yr UE a Rhyngwladol. Mae'n ddyletswydd ar sefydliadau i aros yn agored i glywed y gwahanol fathau o fywydau a safbwyntiau sy'n llawn profiad a gwybodaeth. Gall y rhain helpu i lunio newid. Yn ein holl sgysrsiau mae angen i ni gofio y dylai popeth a wnawn fod yn seiliedig ar barch, urddas a chydraddoldeb.



Nododd y cyhoeddiad diweddar *#ClosingtheGap* Mai 2019 bump o'r camau pwysicaf sydd angen eu cyflawni i lwyddo i leihau gwahaniaethau cyrhaeddiad, ac un ohonynt yw:

Cael sgysiaid am hil a newid y diwylliant: mae angen i brifysgolion a myfyrwyr greu mwy o gyfleoedd i siarad yn uniongyrchol am hil, hiliaeth a'r bwlch cyrhaeddiad a nodi beth sy'n ei achosi, ym marn myfyrwyr. Mae angen newid diwylliant ynghyd â neges sefydliadol glir lle mae materion hil yn ymwreiddiedig o fewn nodau strategol ehangach.

Prifysgolion y Deyrnas Unedig (UUK) ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM). 2019, *Black, Asian and minority ethnic student attainment at UK universities: #ClosingtheGap*. Ar gael yn: <https://www.universitiesuk.ac.uk/news/Pages/Universities-acting-to-close-BAME-student-attainment-gap.aspx> [Accessed: 15 Mai 2019]. t3

Pam dylem ni siarad am gydraddoldeb hiliol?

Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i gefnogi amrywiaeth a chreu amgylchedd agored a chynhwysol. I gefnogi hyn mae angen i ni ddeall anghenion myfyrwyr a staff BAME, yr UE a Rhyngwladol yn well i sicrhau bod myfyrwyr a staff yn cynnal ac yn teimlo'n rhan o'n sefydliadau.

Gallai cyflogaion du unigol o bosibl fyth deimlo perthyn i weithle na pherthyn yn gymdeithasol â nhw, gan eu bod mewn lleiafrif. Gallant brofi'r ymdeimlad hwn o 'fod ar wahân' yn ymwybodol neu'n anymwybodol, ac mae'n aml yn cael ei deimlo ond heb gael ei gydnabod, ei gefnogi na'i siarad amdano.

Cousins, S. a Hill, C. 2019 *Overcoming Everyday Racism: Building Resilience and Wellbeing in the face of discrimination and microaggressions*. Llundain: Jessica Kingsley Publishers

Cafodd yr angen am fecanweithiau effeithiol sy'n gwella ymdeimlad o berthyn i'r sefydliad hefyd eu hamlygu drwy'r ddogfen *#ClosingtheGap*, Mai 2019. Mae'n ein hannog i gynnal trafodaethau uniongyrchol am gydraddoldeb hil ac i roi gofod i fyfyrwyr a staff BAME, yr UE a Rhyngwladol fynegi agweddau ar eu profiadau bywyd y gallent fel arall deimlo na allent eu llefaru mewn amgylcheddau sy'n wyn yn bennaf.

Rhaid i ddeialogau am gydraddoldeb hil ddigwydd i alluogi dealltwriaeth o safbwyntiau a gwybodaeth newydd er mwyn i ni wneud newidiadau gwirioneddol i'r amgylchedd diwylliannol a herio ein ffordd o feddwl. Mae'r panel wedi rhoi man cynhwysol sy'n cynnwys partneriaid mewnol ac allanol, a myfyrwyr a staff o wasanaethau proffesiynol ac academaidd.

Dywed ymchwil wrthym fod ymdeimlad o berthynas yn ffactor pwysig wrth i staff a myfyrwyr gyflawni eu potensial - yn enwedig myfyrwyr a staff o gefndiroedd lleiafrif ethnig.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018 *An Inquiry into Racial Harassment in Higher Education*.

Mae myfyrwyr a staff BAME, yr UE a Rhyngwladol yn astudio ac yn gweithio mewn mannau sy'n fwyafrifol wyn ac mae'r profiadau yn y mannau hyn yn arferol i bobl wyn. Mae Siarad am Gydraddoldeb Hiliol yn lle i ymgysylltu mewn trafodaethau a ymddiriedir ymhlith ystod eang o fyfyrwyr a staff ac mae'n lleihau'r tyndra'n effeithiol ynghylch anghydraddoldeb ac yn meithrin perthnasau cymunedol gwell ac yn cynnig amrywiaeth o leisiau.

Ar adegau nid yw ein hamgylcheddau'n ddiogel nac yn hawdd eu llywio, a gallem fod am dynnu ein hunain ohonynt ac ynysu. Felly mae'n eithriadol o bwysig yn ein bywydau bob dydd ein bod yn ymrwmo i wneud dewisiadau sy'n gwella ein mynediad at amgylcheddau cymdeithasol lle teimlwn yn ddiogel ac wedi ein gwerthfawrogi a lle gallwn ddiosg y gôt nad yw'n ffitio, o leiaf am gyfnod.

Cousins, S. a Hill, C. 2019 *Overcoming Everyday Racism: Building Resilience and Wellbeing in the Face of Discrimination and Microaggressions*. Llundain: Jessica Kingsley Publishers. t91

Sut y gwnaethom siarad am gydraddoldeb hiliol

Mae'r panel trafod Siarad am Gydraddoldeb Hiliol yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn am ddwyawr. Y nod yw cynnal aelodaeth graidd ac ymrwymedig sy'n cynnal lefelau diddordeb a brwdfrydedd wrth brif-ffrydio cydraddoldeb hil ar draws y brifysgol. Mae'r mynychwyr yn adlewyrchu grŵp amrywiol o unigolion o bob rhan o'r Brifysgol ac mae'r cyfarfodydd yn dilyn model dulliau adferol o gyfathrebu sy'n ceisio adeiladu, cynnal a gwella perthnasau. Mae'r model hefyd yn hwyluso cynnal presenoldeb y panel sy'n hanfodol i'w gynaliadwydd a meithrin perthnasau sy'n hanfodol i ddatblygu cydraddoldeb hil mewn unrhyw sefydliad.

Drwy gydol y cyfarfodydd hyn, anogir gwranddo, empathi ac ymrymuso i alluogi barn amrywiol i gael ei chynrychioli o fewn diogelwch y fframwaith hwn. Mae angen i ni gydnabod bod problem a meithrin dull ar y cyd o ymdrin â hyn drwy ddarparu strwythurau cefnogol sy'n lleihau ynysu i fyfyrwyr a staff BAME, yr UE a Rhyngwladol tra'n adeiladu cymhwysedd diwylliannol a gwella ymdeimlad o berthyn.

Rydym wedi cydlynu tri phanel trafod â thema:

1. Siaradwr gwadd, Cadeirydd Cymdeithas Heddlu Du Cymru, yn agor trafodaeth anffurfiol am natur rhagfarn a lywir gan waith Gordon Allport.
2. Siaradwr gwadd, Cydymaith Ymchwil, yn rhoi sgwrs anffurfiol yn disgrifio'i brofiadau o Hil a Gwahaniaeth ar draws tri diwylliant:
 - Tyfu i fyny yng Nghaliffornia
 - Profiad Israddedig Stanford
 - Byw a gweithio yn Sweden
 - Byw a gweithio yng Nghymru
3. Siaradwr gwadd, Rheolwr Preswylfeydd (Preswylfeydd a Cyfleusterau), yn cyflwyno panel ag amlinelliad cryno o'i waith ym Mhreswylfeydd y Brifysgol o'r enw 'Preswylfeydd Prifysgol trosolwg o'r preswylfeydd campws, proses ddyrannu a'r cymorth a gynigiwn pan fo'r myfyrwyr wedi symud i mewn ac yn berthnasol i brofiad penodol myfyrwyr BAME;
4. Siaradwr Gwadd, Rheolwr Bywyd Preswyl, yn ein cyflwyno i Bywyd Preswyl a siarad drwy 'Cymunedau Byw a Dysgu'.

Yn dilyn pob un o'r tri digwyddiad hyn, gofynnwyd i'r mynychwyr roi adborth diennw ar y cwestiwn: "Allwch chi ddisgrifio beth mae Troseddau Casineb Hiliol yn ei olygu i chi yma ym Mhrifysgol Caerdydd?" Cafodd yr adborth amrywiaeth o themâu a grynhoir isod:

1. Mwy o ymwybyddiaeth o ddiffiniad troseddau casineb hiliol a digwyddiadau ohono yn y Brifysgol.

2. Mae angen i'r ymrwymiad i gydraddoldeb hil fod yn fwy gweladwy ac yn flaenoriaeth uchel Ni chaiff hyn ei gyflawni ond drwy uwch reolwyr yn bod yn gyfrifol am gyfathrebu ehangach ar draws y Brifysgol.
3. Mae angen i'r Brifysgol gydnabod angenrheidrwydd creu mannau diogel ar gyfer deialog ar gydraddoldeb hil, wedi'i gydbwysu'n erbyn yr angen i brif-ffrydio disgwrs cydraddoldeb hil.
4. Mae angen mwy o gymorth ar fyfyrwyr a staff BAME sy'n profi troseddau a digwyddiadau casineb hil
5. Mwy o ddull rhagweithiol o ran cydraddoldeb hil a deall profiad byw myfyrwyr a staff BAME yn y Sector Addysg Uwch.

Mae'r adborth yn adlewyrchu canfyddiadau sy'n dod i'r fei ar draws y sector AU ehangach sy'n cydnabod pwysigrwydd gwella llais myfyrwyr a staff BAME, yr UE a Rhyngwladol drwy gyfranogi mewn strwythurau sy'n bodoli a chreu cyfleoedd newydd.

Pwyntiau Myfrio

- Mae mae'ch adran yn cydnabod cyfraniadau gan fyfyrwyr a staff BAME, yr UE a Rhyngwladol?
- Ystyriwch ba gyfleoedd rydych yn eu rhoi i fyfyrwyr a staff siarad am gydraddoldeb hiliol.
- Pa gamau ydych chi'n eu cymryd neu a hoffech chi eu cymryd, i feithrin perthnasoedd â'ch myfyrwyr a'ch staff BAME, yr UE a Rhyngwladol?
- Pwy sy'n arwain eich adran a sut ydych chi'n helpu i wella cynnydd, cadw a chyrhaeddiad myfyrwyr a staff BAME, yr UE a Rhyngwladol?
- Sut ydych chi'n cefnogi myfyrwyr a staff sy'n codi materion hil o fewn eich adran?

Dyfodol y grŵp trafod

Nod Siarad am Gydraddoldeb Hiliol yw cynnal tair sesiwn dros y flwyddyn academaidd nesaf sy'n canolbwyntio ar sgysiau i godi ymwybyddiaeth o'r angen i greu cwricwla cynhwysol.

Dywedodd 42% o fyfyrwyr BAME nad ydyn nhw'n teimlo bod y cwricwlwm yn adlewyrchu materion amrywiaeth, cydraddoldeb a gwahaniaethu. Adroddon nhw ddiffyg cynnwys penodol BAME a ffordd brif-ffrwd o feddwl.

Prifysgolion y Deyrnas Unedig (UUK) ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM). 2019, *Black, Asian and minority ethnic student attainment at UK universities: #ClosingtheGap*. Ar gael yn: <https://www.universitiesuk.ac.uk/news/Pages/Universities-acting-to-close-BAME-student-attainment-gap.aspx> [Accessed: 15 Mai 2019].

Bydd gan y Brifysgol wybodaeth gynyddol o effaith cwricwlwm ac addysgu cyfredol ar brofiad myfyrwyr BAME, yr UE a Rhyngwladol. Eleni, ar gais gan Undeb y Myfyrwyr, y nod yw cynyddu lefelau cyfranogiad myfyrwyr.

Pan fyddwn yn cynnig rhestr darllen wedi'u dominyddu gan ddynion gwyn rydym hefyd yn addysgu'r gwersi anghywir y fyfyrwyr am bwy sy'n awdurdod deallusol ac sy'n haeddu sylw. Mae angen i fyfyrwyr BAME weld eu hunain wedi'u hadlewyrchu yn y cwricwlwm fel crëwyr gwybodaeth dilyn.

Muldoon, J. (2019). Academics: it's time to get behind decolonising the curriculum. The Guardian 20 Mawrth 2019. Ar gael yn: <https://www.theguardian.com/education/2019/mar/20/academics-its-time-to-get-behind-decolonising-the-curriculum>. [Accessed: 9 Mai 2019] ■

Panel Goruchwyllo Cydraddoldeb Hiliol

Tabl 3: Dangosyddion i lywio gwerthusiad byrdymor, canlyniadau tymor canolig ac effaith tymor hwy.

Menter	Canlyniad byrdymor	Canlyniad tymor canolig	Canlyniadau hirdymor
Y Panel Goruchwyllo Cydraddoldeb Hiliol	Codi Ymwybyddiaeth o'r Panel Goruchwyllo Cydraddoldeb Hiliol (RESP) Codi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau a throseddau casineb hil o fewn Prifysgol Caerdydd Sicrhau bod mesurau effeithiol ar waith i ddelio â throseddau a digwyddiadau casineb hil Prif-ffrydio dull adferol i reoli troseddau a digwyddiadau casineb hil	Cynyddu nifer yr adroddiadau o droseddau a digwyddiadau casineb hil Cynyddu lefelau ymddiriedaeth bod y Brifysgol yn blaenoriaethu lleihau rhwystrau at adrodd Gwella lles myfyrwyr a staff yn ystod y broses gwyno	Cyfraddau ddifffyg parhad gwell a lleihau bylchau wrth ddyfarnu Cadw mwy o fyfyrwyr a staff Ymddiriedaeth gwell yn y sefydliad Enw da sefydliadol gwell

Advance HE, Attracting Diversity: Adroddiad diwedd prosiect Adran 5. Defnyddio theori newid i ddylunio a gwerthuso ymyriadau
Kay Steven a'r Athro Liz Thomas

Mae'r Panel Goruchwyllo Cydraddoldeb Hiliol (RESP) wedi'i sefydlu i hwyluso codi ymwybyddiaeth ac annog adrodd troseddau neu ddigwyddiadau hiliol. Y nod yw cynnal ac adeiladu perthnasau rhwng myfyrwyr a staff. Mae'n adnodd gwerthfawr yn y Brifysgol o wella'r ffordd y mae staff yn ymateb i ddigwyddiad o wahaniaethu'n seiliedig ar hil.

Mae gwahaniaethau hiliol yn bodoli ar draws cymdeithas ac felly mae'n bodoli yn ein sefydliadau. Ni all prifysgolion wadu, anwybyddu na gosod cyfrifoldeb ar y sawl sy'n dioddef o anghydraddoldeb. Cyfrifoldeb y sefydliad ydyw. Mae sefydliadau wedi bod yn barod i labelu'r dioddefwr ac yn llai parod i ddwyn yn drwgweithredwr i gyfrif, tra'n ymwybodol neu'n anymwybodol benderfynu taw'r targed yw'r broblem ac amddiffyn pobl sy'n edrych fel eu hunain.

Beth mae RESP yn ei gynnig?

Rhydd RESP gyngor a chanllawiau ar draws y Brifysgol sy'n cynnwys unrhyw feysydd sy'n destun pryder sy'n deillio o anghydraddoldeb neu aflonyddu hiliol, gan gynnwys achosion cymhleth. Rhydd fwrdd proffesiynol ag aelodaeth amrywiol, gan gynnwys staff proffesiynol ac academiaidd, lle mae gan y rhan fwyaf o aelodau brofiad blaenorol a reoli materion aflonyddu hiliol o fewn y Brifysgol.

Wedi'i ymsefydlu yn ein holl gyfathrebu mae dull perthynol sydd am feithrin, cynnal a gwella perthnasau gan drin pob digwyddiad fel un unigryw.

Nod allweddol y panel hwn yw:

- Gwella ymwybyddiaeth bod gwahaniaethu hiliol yn bodoli yn ein cymdeithas;
- Defnyddio dull dysgu seiliedig ar arfer sy'n defnyddio astudiaethau achos go iawn
- Gwella cymhwysedd proffesiynol wrth reoli achosion;
- Nodi themâu sy'n dod i'r amlwg
- Cefnogi'r Brifysgol wrth weithredu lle y bo'n briodol.
- Ymsefydlu sgiliau sy'n ein galluogi i reoli digwyddiadau critigol drwy ddull a ystyrir yn ofalus ac sy'n sensitif ac yn amserol.
- Sefydlu dull perthynol at yr holl gyfathrebu.

Mae angen i ni wella sut rydym yn ymateb i droseddau casineb hiliol fel sector. Mae angen i ni hefyd gydnabod bod pobl mewn sefydliadau'n cael eu trin yn llai ffafriol nag eraill. Mae ein tuedd at pobl sy'n 'debyg i ni' ac mae gennym oll gyfrifoldeb o safbwynt proffesiynol, moesol a chyfreithiol i gydnabod sut mae'r rhain yn effeithio ar ein gwaith. Mae angen i bawb fod yn ymrwymedig i herio a dylanwadu ar newid yn ein diwylliant. Er bod ein gweithrediadau, ein strwythurau a'n rhagdybiaethau'n ymddangos yn normal ac yn deg mae tystiolaeth ddigonol i ddangos bod anghydraddoldeb strwythurol yn ein sefydliadau a c mae modd eu canfod yn eu prosesau, eu hagweddau a'u hymddygiad. Mae RESP yn bod yn rhagweithiol wrth atal aflonyddu.

Adroddodd bwletin ystadegol y Swyddfa Gartref "y ffactor ysgogol a adroddir yn fwyaf cyffredin yn y digwyddiadau troseddau casineb hyn oedd hil" gyda 76% o droseddau casineb yn droseddau casineb hil.

Y Swyddfa Gartref 2018. *Troseddau Casineb, Cymru a Lloegr, 2017/18, Bwletin Ystadegol 20/18*. Ar gael yn: (https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/748598/hate-crime-1718-hosb2018.pdf) (t7)

Mae'r Panel Goruchwylio Cydraddoldeb Hiliol yn rhoi mynediad gwell i gymorth a chanllawiau arbenigol, gan gasglu ac adrodd ar y themâu sy'n dod i'r amlwg ynghylch digwyddiadau hil neu droseddau casineb i Bwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) y Brifysgol. Mae'r tîm yn cwrdd yn ôl yr angen ac yn ymateb mewn ffordd amserol i geisiadau o bob rhan o'r sefydliad. Mae cynnwys grŵp o staff sy'n gweithio ar achosion yn sicrhau cysondeb arfer ac yn osgoi dibyniaeth ar unrhyw unigolyn, yn ogystal a gwella dysgu a gwybodaeth yn y maes hwn.

Mae'n hanfodol i achosion gynnwys dull perthynol at ddatrys problemau a herio ymddygiad annerbyniol.

Dylai mwy gael ei wneud i sicrhau bod drwgweithredwyr troseddau casineb yn cael eu delio â nhw'n effeithiol ac y dylai dulliau adferol fod yn haws eu caffael yng Nghymru.

Williams, Dr M a Tregidga, Dr J. [2016]. *Prosiect Ymchwil Troseddau Casineb Cymru Gyfan*. Trosolwg Ymchwil a Chrynodeb Gweithredol. Race Equality First t.25

Mae dull perthynol yn ganolog i weithredu RESP ac mae'n allweddol i bob un o'i swyddogaethau. I greu lefelau o gymhwysedd diwylliannol ac ennill ymddiriedaeth myfyrwyr a staff BAME, yr UE a Rhyngwladol mae angen i ni wella ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â hil o fewn cymdeithas ac yn y sector AU.

Stori RESP hyd yma:

Gwnaethom sefydlu RESP i ddarparu:

- Bwrdd proffesiynol ei naws;
- Cefnogi ac arwain mewn achosion mwy cymhleth a difrifol;
- Safbwyntiau ac eglurder ar arfer gorau;
- Lle byddai arbenigedd yn fuddiol;
- Mynediad i ystod eang o staff arbenigol sydd â phrofiad blaenorol o ddigwyddiadau hil o fewn y Brifysgol.

Mae RESP yn defnyddio fframwaith adferol yn ei ddull sy'n seiliedig ar gynnal perthnasau da. Ymhob achos caiff cyfres o gwestiynau eu gofyn i RESP:


- Beth ddigwyddodd?
- Beth mae'r bobl sy'n rhan ohono'n ei feddwl ac yn ei deimlo?
- Pwy arall a effeithiwyd gan hyn neu a allai gael ei effeithio?
- Beth ydych chi'n ei deimlo sydd ei angen arnynt i deimlo wedi'i gefnogi gennych ac i symud ymlaen?

Mae'r RESP yn gweithio'n hyblyg o fewn proses sefydledig i greu canllawiau amserol a pherthnasol i'r Brifysgol ar arfer gorau ar gyfer cefnogi myfyrwyr, staff a'r cyhoedd.

Gwelwyd cynnydd yn yr ymgysylltu â'r defnydd o'r panel. Gall hyn gael ei fesur drwy ymgysylltu cynyddol yn y Brifysgol â'r gwasanaeth o ran digwyddiadau penodol, ymholiadau cyffredinol, datblygu mentrau cydraddoldeb hiliol newydd a gwahoddiadau i gyflyno gwaith RESP yn fewnol ac yn allanol. Cred y Brifysgol fod y cynnydd hwn mewn ymgysylltu'n ganlyniad cadarnhaol, sy'n cydnabod yr angen i gynyddu lefelau adrodd a chreu amgylchedd o ymddiriedaeth lle mae cydraddoldeb hiliol yn rhan o'r sgwrs.



Y Panel Goruchwylio Cydraddoldeb Hiliol



Enghraifft o astudiaeth achos

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn seiliedig ar fater go iawn a gododd yn y Brifysgol. Er bod y myfyrwyr yn ddienw, roedden nhw'n hapus i rannu eu pryderon â'r Brifysgol er mwyn hyrwyddo newid ac atal eraill rhag cael eu brifo a'u heithrio.

Cododd grŵp o fyfyrwyr BAME, yr UE a Rhyngwladol eu pryderon am y broses hunanddethol o fewn grwpiau astudio/prosiect yr oeddent yn teimlo ei bod yn arwain at ynysu ac ymddygiadau all-grwpio.

Anfonwyd y cyngor a'r canllawiau ddeilliodd o hyn at fyfyrwyr â fynegodd bryderon ac i'r Tîm Ymateb i Ddatgeliadau.

Canllawiau - Er mwyn atal ynysu ac eithrio myfyrwyr o waith grŵp mae'n syniad da cynllunio fformat sesiynau addysgu a grwpio myfyrwyr ymlaen llaw i atal grwpiau hunanddethol.

Arfer Da wrth ddethol grwpiau myfyrwyr wrth addysgu - Gall grwpiau myfyrwyr hunanddethol gael effaith negyddol ar amgylcheddau dysgu oherwydd:

- bydd diffyg amrywiaeth mewn grwpiau myfyrwyr

- tuedd anymwybodol neu ymwybodol wrth ddethol
- gall rhai myfyrwyr deimlo wedi'u heithrio rhag deinamig mewn grŵp
- bydd llai o gyfle i rannu gwybodaeth sy'n amrywiol a chynhwysol.

Sut gellir goresgyn hyn?

Cynllunio fformat sesiynau hyfforddi a grwpiau myfyrwyr ymlaen llaw i helpu i atal grwpiau hunanddethol:

Dulliau dyrannu grŵp myfyrwyr	Manteision	Anfanteision
Rhagddyrannu	• Gallu ystyried grwpiau amrywiol o flaen llaw • Rhannu o gefndiroedd a gwybodaeth amrywiol • Myfyrwyr yn ymwybodol o fformat gwahanol cyn y sesiwn addysgu • Diarddel blaenorol • Atal tuedd ddarwybod • Mynd i'r afael â diffyg ymgysylltu mewn grwpiau mewn sesiynau addysgu	• Posibiliad o ddiffyg data amrywiaeth digonol i alluogi ystyried yr holl nodweddion amrywiol • Gallai 'grwpiau mewnol' dal fodoli • Efallai na fydd myfyrwyr yn fodlon ar fformat grŵp a gallai 'grwpiau mewnol' newydd ffurfio
Hapddyrannu	• Gellir ei wneud yn y sesiwn neu ymlaen llaw • Diarddel blaenorol • Atal tuedd ddarwybod • Mynd i'r afael â diffyg ymgysylltu mewn grwpiau mewn sesiynau addysgu	• Posibiliad na chaiff amrywiaeth grwpiau eu hystyried yn llawn • Gallai 'grwpiau mewnol' dal fodoli • Efallai na fydd myfyrwyr yn fodlon ar fformat grŵp a gallai 'grwpiau mewnol' newydd ffurfio



> Panel Goruchwylio Cydraddoldeb Hiliol (RESP) parhad

Ffactorau ychwanegol i'w hystyried:

- cyfnod yr amser y bydd y grwpiau project yn cydweithio.
- anghenion a gwahaniaethau rhwng myfyrwyr BAME y DU, yr UE a Rhyngwladol
- adolygu'n barhaus effeithiolrwydd grwpiau myfyrwyr a'r broses ddyrannu os yw dros dymor hwy.
- arweinwyr modiwl yn myfyrio am amrywiaeth y garfan myfyrwyr ymlaen llaw i sicrhau bod deunyddiau dysgu mor hygyrch a chynhwysol â phosibl.

Pwyntiau Myfyrio

- Ydy'ch adran yn gynhwysol ac ydyw'n ystyried creu amgylcheddau cytûn sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddysgu ac addysgu?
- Ydych chi'n ymwybodol o gefndir diwylliannol a hiliol eich carfan myfyrwyr? Ydych chi'n trin pawb yn gyfartal? Beth sy'n problemus ynghylch trin pobl yn gyfartal?
- Ydych chi'n deall effaith diffyg cynhwysiant yn y Bwlch Dyfarnu BAME?
- Sut mae'ch adran yn delio ag aflonyddu a bwlio hiliol?
- Ydy'ch staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer delio â hiliaeth?
- A oes gwahaniaeth rhwng canfyddiadau staff gwyn o bresenoldeb hiliaeth yn y Brifysgol a chanfyddiadau'ch staff BAME, yr UE a Rhyngwladol?

Beth allwch chi ei wneud?

- Dod o hyd i ffyrdd o reoli grwpiau myfyrwyr yn fwy effeithiol.
- Cynnwys myfyrwyr mewn prosesau gwneud penderfyniadau yn benodol o ran datblygu cwricwlwm. Ond ddim eu beichio â'r dasg hon; cyfrifoldeb y Brifysgol yw hyn.
- Gofyn i'ch myfyrwyr am eu canfyddiadau o'r cwrs o ran cwricwla cynhwysol. ■

Grŵp Bwlch Dyfarnu BAME (Grŵp gorchwyl a gorffen)

Tabl 4: Dangosyddion i lywio gwerthusiad byrdymor, canlyniadau tymor canolig ac effaith tymor hwy.

Menter	Canlyniad byrdymor	Canlyniad tymor canolig	Canlyniadau hirdymor
Grŵp Bwlch Dyfarnu BAME (Grŵp Gorchwyl a Gorffen)	Codi ymwybyddiaeth o Grŵp Bwlch Dyfarnu BAME canolog a chydweithrediad rhwng Undeb y Myfyrwyr a chynrychiolwyr staff o bob coleg Codi ymwybyddiaeth o Fylchau Dyfarnu BAME ar draws y Brifysgol Codi ymwybyddiaeth o gyfraddau diffyg parhad BAME ar gwrs o'i gymharu â myfyrwyr gwynion ar draws y Brifysgol Deall yr amryw ffactorau sy'n effeithio ar gyrhaeddiad neu ddiffyg parhau ar gwrs	Monitro data'n gynyddol ar ddyfarnu graddau BAME Ymgysylltu'n fwy â myfyrwyr BAME i ddeall y rhwystrau gwahanol a wynebir a'u helpu i'w goresgyn Cynyddu lefelau ymddiriedaeth bod y Brifysgol yn ceisio lleihau rhwystrau at adrodd a'i fod yn flaenoriaeth uchel Gwella ymwybyddiaeth ddiwylliannol ymhlith myfyrwyr a staff i hyrwyddo cynhwysiant	Cyfraddau ddiffyg parhad gwell a lleihau bylchau wrth ddyfarnu Bwlch Dyfarnu BAME llai/ ddim yn bodoli Lles myfyrwyr BAME gwell Boddhad myfyrwyr BAME gwell Derbyniadau BAME gwell

Advance HE, Attracting Diversity: Adroddiad diwedd prosiect Adran 5. Defnyddio theori newid i ddylunio a gwerthuso ymyriadau
Kay Steven a'r Athro Liz Thomas

Sefydlwyd y Grŵp Bwlch Dyfarnu Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) (sef grŵp gorffen a gorchwyl) i ddatblygu dealltwriaeth o'r materion sy'n cyfrannu at y bwlch dyfarnu i fyfyrwyr BAME.

Mae tystiolaeth hirsefydlog o fwllch cyrhaeddiad mewn Addysg Uwch rhwng myfyrwyr BAME a myfyrwyr gwyn (Y swyddfa Myfyrwyr (n.d.)

Rhaglen Mynd i'r Afael â Rhwystrau at Lwyddiant Myfyrwyr. Ar gael yn: <https://www.officeforstudents.org.uk/advice-and-guidance/promoting-equal-opportunities/addressing-barriers-to-student-success-programme>

a Prifysgolion y Deyrnas Unedig Black, Asian and Minority Ethnic attainment at UK Universities #ClosingtheGap. Ar gael yn <https://www.universitiesuk.ac.uk/policy-and-analysis/reports/Pages/bame-student-attainment-uk-universities-closing-the-gap.aspx>



Mae'n fater parhaus sector cyfan sy'n bodoli'n annibynnol ar berfformiad academiaidd blaenorol. Ni nodwyd un rheswm penodol dros y bwlch cyrhaeddiad hwn ac felly nid oes un ateb.

Mae'r adroddiad i'r Swyddfa Myfyrwyr yn Chwefror 2019 o'r enw **'Understanding and overcoming the challenges of targeting students from under-represented and disadvantaged ethnic backgrounds'** yn rhoi cyfres o argymhellion a chanllawiau ar draws y sector sy'n ategu'r prosiect.

Pam fod y Bwlch Dyfarnu'n bwysig?

Dengys data HESA fod 2% o'n poblogaeth israddedig yn ystyried eu hunain yn Ddu, gyda 17% yn BAME. Mae data TEF yn rhoi cipolwg pellach, gan amlygu canlyniadau gwahaniaethol grwpiau gwahanol gan gynnwys 'fflag negyddol' i fyfyrwyr BAME ar y cyfan yn y Brifysgol yn erbyn yr Addysgu ar fy metrig cwrs.

Mae gan Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol 2020-2024 ffocws ar fynd i'r afael â chanlyniadau gwahaniaethol i fyfyrwyr, a nod cyffredinol y cynllun cydraddoldeb yw **"dod yn Brifysgol sy'n cefnogi taith gynhwysol myfyrwyr drwy'r recriwtio, derbyn, lles a'r amgylchedd dysgu"**, gan yn benodol amlygu'r angen i **"fynd i'r afael â chyrhaeddiad a chadw rhai grwpiau â nodweddion a ddiogelir sy'n llai tebygol o ennill gradd gyntaf neu 2:1"**. Dyma rai o'r meysydd gweithredu posibl:

- Mynd i'r afael â diffyg parhad myfyrwyr o Flwyddyn 1 o ran yr holl nodweddion a ddiogelir gan ganolbwyntio'n benodol ar ethnigrwydd.
- Maer bwlch dilyniant ym Mhrifysgol Caerdydd, sef 4.3% rhwng myfyrwyr du a lleiafrifoedd ethnig a rhai gwyn, yn agos at feincnod y Deyrnas Unedig, sef 3.9%.

- Mynd i'r afael â chyrhaeddiad gwahanol i rai grwpiau â nodweddion a ddiogelir, gan gynnwys ffocws ar fyfyrwyr BAME sy'n llai tebygol o gael gradd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch.

Stori'r Grŵp Bwlch Dyfarnu BAME hyd yma

Mae aelodaeth y Grŵp Bwlch Dyfarnu BAME yn gydwethrediad rhwng Undeb y Myfyrwyr â swyddogion etholedig, uwch aelodau o staff o bob rhan o'r Brifysgol a chynrychiolwyr o'r tri Choleg. Mae'r Grŵp yn gweithredu ar ran y Pwyllgor EDI a'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd ac mae'n adrodd iddynt ar y cyd. Mae'r Grŵp hefyd yn bwydo i'r Gweithgor Myfyrwyr Cydraddoldeb Hiliol, sy'n is-grŵp o Grŵp Llywio Cydraddoldeb Hiliol y Brifysgol.

Nod y Grŵp Bwlch Dyfarnu BAME yw deall sefyllfa bresennol y Brifysgol o ran bylchau dyfarnu myfyrwyr BAME a phrofiad gwahaniaethol myfyrwyr drwy:

1. Ddadansoddi meintiol: adolygu'r data sydd ar gael, ei ddehongli, nodi bylchau data a pha data nad ydym yn ei ddefnyddio'n effeithiol.

Canfyddiadau allweddol yn meincnodi adroddiad **#ClosingtheGap** Prifysgolion y Deyrnas Unedig:

- Y bwlch dyfarnu cyffredinol ym Mhrifysgol Caerdydd yw 10.9%.
- Cafodd cyfradd uwch o fyfyrwyr gwyn a BAME ym Mhrifysgol Caerdydd radd dosbarth cyntaf neu radd ail ddosbarth uwch o'i gymharu â sefydliadau addysg uwch eraill y DU, ond:
 - Mae myfyrwyr gwyn yn fwy tebygol o gael gradd dosbarth cyntaf neu radd ail ddosbarth uwch o'i gymharu â myfyrwyr BAME

- Mae'r cyfraddau diffyg parhad uchaf ar draws y 3 Choleg o ran myfyrwyr duon.
- Mae myfyrwyr cartref o bob ethnigrwydd yn fwy tebygol o gael gradd dosbarth cyntaf neu radd ail ddosbarth uwch o'i gymharu â myfyrwyr Rhyngwladol.
- Y bwlch mwyaf mewn dyfarnu myfyrwyr Cartref a Rhyngwladol yw'r myfyrwyr sy'n adrodd fel Du neu Ethnigrwydd Cymysg, yn benodol ar y lefelau uwch ac ail ddosbarth uwch.
- Mae llai o staff academiaidd BAME ym Mhrifysgol Caerdydd o'i gymharu â sefydliadau addysg uwch y DU.

2. Ymchwil ansoddol: i gynnal grwpiau ffocws a chyfweliadau, gan wahodd tystiolaeth o fywydau myfyrwyr BAME PC ar draws cylch oes cyfan myfyrwyr a hyrwyddo trafodaeth ag uwch arweinwyr.

Cafwyd cymeradwyaeth foesegol i gynnal ymchwil ansoddol gyda'r bwriad i'w wneud yn 2020 fel grwpiau ffocws a chyfweliadau un-i-un â'r nod o:

- Edrych ar brofiadau bywyd myfyrwyr BAME;
- Nodi galluogwyr/rhwysterau yn amgylchedd y Brifysgol sy'n cyfrannu at gyrhaeddiad a/neu dynnu'n ôl a chynnydd
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r rhwydweithiau cefnogaeth sydd ar gael;
- Pennu effaith ar les myfyriwr BAME.

Effeithiai ffactorau amgylcheddol ar gyflawni a dylanwadedent ar gamau allweddol sef:

- Cafodd model hyfforddiant i hwyluswyr sy'n fyfyrwyr grwpiau ffocws ei ddatblygu a'i gyflawni gyda man diogel i gael sgysiau ynghylch hil a chafodd cwestiynau a gynlluniwyd eu hadolygu a'u cytuno.

- Sesiwn wybodaeth yn rhoi cyd-destun i nodau'r Grŵp Bwlch Dyfarnu BAME, gan gyfeirio at les a chymorth, wedi cael ei recordio i helpu i ymgysylltu â myfyrwyr.
- Trefnwyd grwpiau ffocws myfyrwyr i fis Mawrth 2020 ond nis cynhaliwyd yn sgîl Covid-19.
- Addaswyd cwestiynau yn arolwg myfyrwyr gyda rhaglen wybodaeth ddiwygiedig i gyfranogwyr.
- Cydlynwyd gweithdy ar gydraddoldeb hiliol yn y Gynhadledd Uwch Aelodau Staff (Hyd 2019) gyda'r Athro Marcia Wilson o UEL yn gwneud cyflwyniad ar '**Creu Sefydliad Addysg Uwch Gwrth-hiliol**' a gydnabu hiliaeth sefydliadol ar draws y sector a rhoi gofod diogel i gael trafodaethau ynghylch hil:
 - Cafodd data o Brifysgol Caerdydd ei feincnodi yn adroddiad *#ClosingTheGap* ac roedd trafodaethau bwrdd yn cynnwys themâu ar y cwricwlwm cynhwysol, diwylliant a recriwtio.
 - Rhoddodd wal ymrwymiad adborth gan uwch aelodau o staff ar y camau nesaf i wneud newid.

3. Datblygwyd cynllun gweithredu ar sut y gall y data gael ei gynnwys yn ein prosesau arferol i gael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol.

Mae'r Grŵp Bwlch Dyfarnu BAME yn cyfuno'r dystiolaeth o adroddiad *#ClosingtheGap*, gan alinio â data ansoddol Prifysgol Caerdydd ac allbynnau o'r gynhadledd uwch aelodau o staff i ddatblygu'r cynllun gweithredu a fydd ar gael yn 2020/21. Bydd hyn yn cynnwys arfer gorau o bob rhan o'r sector a'r model grŵp ffocws-myfyrwyr hwylusydd/ arolygu i gael dealltwriaeth lefel Ysgol o rwystrau gwahanol a galluogwyr ar draws y Brifysgol. Caiff y camau gweithredu eu trefnu'n themâu i ystyried diwylliant y Brifysgol, derbyniadau, cynnwys cwricwlwm a'r

amgylchedd dysgu, cymorth i fyfyrwyr ac achosion a gweithgareddau allgyrsiol.

Bydd y cynllun gweithredu'n bwydo i Grŵp Llywio Cydraddoldeb Hiliol y Brifysgol, y Pwyllgor EDI a'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd i gydlynw a monitro'n erbyn y mesurau canlyniad cytûn.

Pwyntiau Myfrio

- Sut mae pob adran yn cydnabod ac yn monitro gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad myfyrwyr BAME a myfyrwyr gwyn?
- Ystyriwch beth y gall adrannau ei wneud i ymgysylltu mwy â myfyrwyr BAME i ddeall y rhwystrau gwahanol y gallent eu hwynebu'n lleol.
- Pa gamau y mae adrannau'n eu cymryd i oresgyn rhwystrau a nodwyd gan fyfyrwyr BAME drwy'r cylch astudio?
- Pwy sy'n gyfrifol am arwain newid i fynd i'r afael â'r Bwlch Dyfarnu BAME yn eich adran?
- Sut ydych chi'n cefnogi myfyrwyr BAME o fewn eich adran?

Beth allwch chi ei wneud?

- Dewch yn gyfarwydd â'r Bwlch Dyfarnu BAME a sut mae'n digwydd yn eich adran.
- Addysgwch eich hun a dysgwch fwy am y bwlch dyfarnu ac adolygwch adroddiad Prifysgolion y Deyrnas Unedig ar *gyrhaeddiad Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ym Mhrifysgolion y DU* *#ClosingtheGap*. Ar gael yn <https://www.universitiesuk.ac.uk/policy-and-analysis/reports/Pages/bame-student-attainment-uk-universities-closing-the-gap.aspx>
- Ystyriwch pa ddulliau y gallwch eu defnyddio i fynd i'r afael â'r bwlch dyfarnu?

Dyfodol y Grŵp Bwlch Dyfarnu BAME

Bydd y Grŵp Bwlch Dyfarnu BAME yn dal i gwrdd yn fisol i gwblhau'r cynllun gweithredu ym mlwyddyn academiaidd 2020/21. Yna bydd y cynllun gweithredu'n bwydo i'r Grŵp Llywio Cydraddoldeb Hiliol, y Pwyllgor EDI a'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd i helpu i weithredu a mynd i'r afael â'r rhwystrau a nodir ar draws y Brifysgol. Y canlyniad mesuradwy bydd gostyngiad yn y bwlch dyfarnu i fyfyrwyr BAME, gan ddod ag ef yn agosach i ganlyniadau dyfarnu myfyrwyr gwyn. ■

Ni nodwyd un rheswm penodol dros y bwlch cyrhaeddiad hwn ac felly nid oes un ateb.

Mentrau cyfredol

- Bwrdd Cyngori EDI yr Is-Ganghellor
- #IttooamCardiff
- Caffi Clwb Llyfrau BME+
- Rhwydwaith Staff BAME+
- Grŵp Llywio Cydraddoldeb Hiliol
- Cydgynhyrchu mewn hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn yr Ysgol Meddygaeth

Tabl 5: Dangosyddion i lywio gwerthusiad byrdymor, canlyniadau tymor canolig ac effaith tymor hwy.

Menter	Canlyniad byrdymor	Canlyniad tymor canolig	Canlyniadau hirdymor
Mentrau cyfredol	Codi ymwybyddiaeth Lledaenu addysg Herio'r sefyllfa sydd ohoni Sicrhau mannau diogel i gynnal trafodaethau am hil Rhoi cyfleoedd i newid diwylliant	Gwella cyfranogiad Cydweithredu mwy ag Undeb y Myfyrwyr Ymdeimlad cynyddol o berthyn. Cydweithredu mwy â dinas Caerdydd a'i chymunedau BAME Deall dulliau ymberthynol o gyfathrebu yn well	Cyfraddau ddiffyg parhad gwell a lleihau bylchau wrth ddyfarnu Cadw mwy o fyfyrwyr a staff Ymwybyddiaeth o gysyniadau anghydraddoldeb hiliol

Advance HE, Attracting Diversity: Adroddiad diwedd prosiect Adran 5. Defnyddio theori newid i ddylunio a gwerthuso ymyriadau
Kay Steven a'r Athro Liz Thomas

Mae ymgysylltu â myfyrwyr a staff BAME, yr UE a Rhyngwladol drwy roi gofodau i'w naratifau gael eu clywed yn flaenoriaeth i'r Brifysgol. Mae dulliau ymgysylltu effeithiol â myfyrwyr BAME, yr UE a Rhyngwladol yn hanfodol. Dylem oll ddyheu i greu gofodau i gynnal trafodaethau didwyll am gydraddoldeb hiliol a thrawsnewid profiad y Brifysgol i'n myfyrwyr a'n staff BAME, yr UE a Rhyngwladol. Mae ymdeimlad o berthyn yn hanfodol i gynydd, cyrhaeddiad a chadw.

Er bod strwythurau sy'n bodoli o fewn y Brifysgol y gellir eu defnyddio i gyflawni cynnydd mewn deialogau o gylch hil, mae angen i ni brifffrydio mentrau tebyg ar draws y Brifysgol. Ni all ymgysylltu ystyriol yn y maes hwn fod yn gyfrifoldeb ychydig o aelodau ymrwymedig o staff. Mae'n cymryd y Brifysgol gyfan i:

- Sicrhau newid gwirioneddol a chynaliadwy;
- Symud o sefyllfa o wadu i un sy'n cydnabod bod anghydraddoldeb hiliol yn parhau o fewn addysg uwch;
- Hwyluso trafodaethau am hil.

Ni yw prosiectau sy'n bodoli eisoes yn cael eu targedu at fyfyrwyr a staff penodol o gefndiroedd ethnig gwahanol, a derbyniwn fod yr amrywiaeth hwn yn bodoli ac yn cydnabod nad oes gan ein Prifysgol boblogaeth ddigon mawr o fyfyrwyr a staff BAME, yr UE a Rhyngwladol i gynnig mentrau wedi'u targedu ar y cam hwn. Bydd data ar y bwlch dyfarnu gobeithio yn ein galluogi i ystyried cyfeiriadau newydd a chanolbwyntio ar grwpiau ethnig penodol ar ôl i'r data gael ei adolygu.

Mae profiad myfyrwyr a staff BAME, yr UE a Rhyngwladol yn wahanol i rai cyfoedion gwyn ac mae angen i'r Brifysgol ehangu ei hymwybyddiaeth o sut y caiff profiadau byw effaith ar eu hymgysylltu (#ClosingtheGap Mai 2019).

Mae angen mentrau, prosiectau ac ymyriadau arnom.

Mae straeon BAME, yr UE a Rhyngwladol yn fodd i aelodau 'grwpiau allan' gael eu gweld a'u clywed. Nid yw bywydau myfyrwyr a staff BAME, yr UE a Rhyngwladol yn ansylweddol ac ni ddylent gael eu lleihau neu eu cuddio; gall y risg o beidio â chael eu clywed neu weld wneud myfyrwyr a staff yn fwy tebygol o adael, ymgysylltu llai â'r Brifysgol ac, yn waeth, brofi diffyg lles yn y gweithle. Rhaid i'n nodi fod i gynnwys myfyrwyr a staff BAME, yr UE a Rhyngwladol yn y sefydliad ac o fewn ei strwythurau.

Yn ein holl brosiectau rydym wedi ceisio gweithio'n uniongyrchol ag Undeb y Myfyrwyr a'i swyddogion BAME, yr UE a Rhyngwladol. Cydgrëwyd ymyriadau, lle gall myfyrwyr rannu eu barn a gwneud awgrymiadau, gan felly sicrhau bod myfyrwyr BAME, yr UE a Rhyngwladol yn cael eu cynrychioli a'u hymgyngori ar ddylunio a datblygu ein holl brosiectau. Anelir nodau allweddol at wella ymdeimlad o berthyn, cau'r bwlch cyrhaeddiad a chefnogi cadw a dilyniant.

Mae'r Swyddfa Myfyrwyr wedi galw ar i brifysgolion:

Gydweithredu â myfyrwyr BME i ddeall eu profiadau.

Anogwn yn gryf i ddarparwyr ymgysylltu â'u myfyrwyr (gan gynnwys undebau neu gymdeithasau myfyrwyr) wrth ddylunio, gweithredu a gwerthuso eu mynediad, llwyddiant a'u gweithgareddau cynnydd. Pan fwriedir i ymyriadau fod o fudd i grŵp penodol o fyfyrwyr mae'n arbennig o bwysig i'r myfyrwyr hyn gael eu hymgyngori ac y gallant gyfrannu at ddealltwriaeth

darparwyr o e.e. profiadau myfyrwyr BME mewn addysg uwch.

Swyddfa Myfyrwyr (n.d.) *Briff pwnc: Myfyrwyr sy'n Bobl Dduon a Lleihafroedd Ethnig (BME)*. Ar gael yn: https://www.officeforstudents.org.uk/media/145556db-8183-40b8-b7af-741bf2b55d79/topic-briefing_bme-students.pdf p10

I annog newid mae angen i ni roi'r gorau i'r gred fod gan bawb gyfle cyfartal a chydabod yn llawn fod gwella ymwybyddiaeth o gydraddoldeb hiliol a chreu cymhwysedd yn y maes hwn yn galluogi'r Brifysgol i ennill dealltwriaeth o'r materion y mae myfyrwyr a staff BAME, yr UE a Rhyngwladol yn eu hwynebu. I ddechrau gallwn oll weithio tuag at ddealltwriaeth o brofiadau BAME, yr UE a Rhyngwladol o fewn y Brifysgol ond nid oes datrysiadau cyflym. Rhaid i ymgysylltu ystyriol ar draws sefydliad mawr gynnwys prosiectau a mentrau lleol lle dylid casglu data ansoddol a meintiol mewn ymateb.

Bwrdd Cyngori EDI yr Is-Ganghellor

Mae Prifysgol Caerdydd yn ymgysylltu ag arbenigedd unigol/aelodau o'r panel allanol gydag arbenigwyr mewnol perthnasol ar sail ad hoc yn dibynnu ar faterion sy'n codi drwy gydol y flwyddyn academaidd.

Mae'r Bwrdd yn rhoi arbenigedd, gwybodaeth a meddwl strategol allanol anffurfiol i Brifysgol Caerdydd ar faterion sy'n ymwneud â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, drwy roi cipolwg a syniadau diduedd sy'n annog ac yn cefnogi ystyried syniadau newydd yn erbyn cyflawni'r strategaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth.



#IttooamCardiff

Cafodd #ittooamcardiff ei lansio yn Hydref 2016 ac ers hynny mae wedi'i arddangos mewn nifer o leoliadau ar draws y Brifysgol. At hynny, yn Hydref 2018, parhaodd â'i daith, gan gyrraedd Adeilad Pen-y-Lanfa Senedd Cymru fel rhan o Fis Hanes Pobl Dduon. Cafodd yr arddangosfa ei noddi gan Vaughan Gething AS, yr Aelod o'r Senedd dros Dde Caerdydd a Phenarth. Siaradodd y Dirprwy Is-Ganghellor, yr Athro Karen Holford, yn lansiad yr arddangosfa, gan gydnabod y cyfraniadau gwerthfawr a wnaed gan y myfyrwyr a gyfrannodd at #ittooamcardiff.

Rhai o yrwyr allweddol y prosiect oedd meithrin perthnasau â myfyrwyr BAME, yr UE a Rhyngwladol ac i roi modelau rôl sy'n cynrychioli profiad du gwirioneddol.

Nodau'r ymgyrch oedd:

- Codi ymwybyddiaeth o faterion anghydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch;
- Creu 'n arddangosfa a oedd yn gynaliadwy dros nifer o flynyddoedd a fyddai'n gwella'r cyfathrebu ar draws diwylliannau a chenedlaethau.
- Codi ymwybyddiaeth o rai o'r materion y mae myfyrwyr BAME yr UE a Rhyngwladol yn eu hwynebu, a'u teimladau a'u meddyliau am eu bywydau bob dydd;
- Ennyn balchder ac adeiladu diwylliant o oddefgarwch;
- Datblygu perthnasau cadarnhaol a pharchus;
- Creu modelau rôl BAME, yr UE a Rhyngwladol newydd sy'n camu o'r tu allan i ystrydebau, sy'n cynrychioli profiadau cyfoes BAME, yr UE a Rhyngwladol ac sy'n newydd ac yn gyfredol;
- Rhoi llais a pherchnogaeth i bobl a dangynrychiolir;
- Hyrwyddo newid diwylliannol mewn addysg uwch.



CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

“Dyw'r ffaith mod i ddim yn cyd-fynd â dy ddelwedd di o berson du yn golygu dy fod yn 'fwy du' na mi.”

Mae Cefnogi a Lles Myfyrwyr yn dathlu amrywiaeth

#IttooamCardiff

Cefnogaeth drwy gydol eich amser yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd

studentlifecu    

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddon cydraddoldeb. Rydym yn cydnabod y manteision o gael cymuned amrywiol a thalentog o fyfyrwyr, a sut mae hyn o fudd i fyfyrwyr a'r Brifysgol yn gyffredinol.

CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

“Ydw,
rydw i'n ddu,
ond dydw
i DDIM yn
'geto'!”

**Mae Cefnogi
a Lles Myfyrwyr yn
dathlu amrywiaeth**

#IttooamCardiff

Cefnogaeth drwy gydol eich amser yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd

studentlifecu



Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddon cydraddoldeb. Rydym yn cydnabod y manteision o gael cymuned amrywiol a thalentog o fyfyrwyr, a sut mae hyn o fudd i fyfyrwyr a'r Brifysgol yn gyffredinol.

Mae #ittooamcardiff wedi'i werthuso drwy gasglu ffurflenni adborth; mae'r ymateb wedi bod, ac mae'n dal i fod, yn gadarnhaol tu hwnt ac yn cynnwys datganiadau megis:

'Mae'n wych gweithio'n rhywle sy'n rhoi llwyfan i achos mor angenrheidiol. Mae'n gwneud i mi deimlo'n gadarnhaol iawn am y dyfodol' (Staff)

'Mae gan Brifysgolion rôl yn nyfodol y byd rydym yn byw ynddo, felly mae'n wych gweld yr ymgyrch hon' (Myfyriwr)

'Gwneud imi deimlo bod PC yn fwy cynhwysol a bod ganddi ots am grwpiau BME. Mae cael y Dirprwy Is-ganghellor yn cyflwyno ac yn dechrau'r digwyddiad yn rymusol iawn ac yn dangos bod hyn yn bwysig i Brifysgol Caerdydd ar y lefel uchaf' (Myfyriwr)

'Nhw yw'r llais, y profiad byw i nifer o fyfyrwyr BME mewn Addysg Ulwch' (Myfyriwr)



Caffi Clwb Llyfrau BME+

Mae Caffi'r Clwb Llyfrau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)+ yn fenter sydd â'r nod o hyrwyddo amgylchedd agored a chynhwysol ac adeiladu adeiladweithiau defnyddiol o'r profiad myfyrwyr a staff BAME, yr UE a Rhyngwladol. Dyma lle diogel lle mae holl aelodau cymuned y Brifysgol yn dod ynghyd i ystyried llenyddiaeth ddiwylliannol amrywiol, gwrandao ar ystod o siaradwyr a chymryd rhan mewn sgysiaau bywiog. Mae swyddogion Undeb y Myfyrwyr yn dewis dau lyfr y flwyddyn. Gwahoddir pawb i'r cyfarfodydd anffurfiol hyn lle mae modd rhannu meddyliau am y llyfr, y pwnc yn gyffredinol, neu eistedd yn ôl a gwrandao ar safbwyntiau gwahanol. Mae dysgu safbwyntiau aelodau eraill cymuned y Brifysgol yn ffordd wych o wella gwybodaeth a dysgu drwy gyfranogi.

'Mae'n anodd clywed rhai o'r pethau mae'n rhaid i bobl ddelio â nhw bob dydd, ond mae'n fy ngwneud yn fwy penderfynol eto i gefnogi myfyrwyr a staff a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Dim ond trwy gydweithio, gwrandao a bod yn weithredol wrth herio ymddygiad gwael y byddwn yn creu cymdeithas wirioneddol gynhwysol. Roedd yr adborth a gafwyd ar ôl y digwyddiad yn galonogol.'

Yr Athro Karen Holford, Dirprwy
Is-Ganghellor



Amser am lyfr gwyh arall | www.caerdydd.ac.uk

בִּיאְוֶזְנִיץ herzlich willkommen באגריסן Hoşgeldiniz ようこそ Üdvözölök
Bienvenido Croeso 欢迎 soo dhaweyn добро пожаловать



Mae hwn yn lle diogel lle gall holl aelodau cymuned y Brifysgol ddod ynghyd...



Rhwydwaith staff BAME+

Cadeirydd: **Michelle Alexis**

Mae'r Rhwydwaith Staff BAME+ yn cynnwys staff o bob rhan o'r Brifysgol sy'n galw eu hunain yn BAME neu sydd â diddordeb mewn cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle. Mae'n lle i drafod ac yn gyfle i ystyried syniadau ar gynyddu amrywiaeth a chynhwysiant ac yn hyrwyddo cyflawniadau staff BAME y Brifysgol. Mae'r Cadeirydd wedi llunio cynllun strategol, a gymeradwywyd gan aelodau'r rhwydwaith, sy'n nodi nodau a gweithgareddau'r rhwydwaith wrth hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ar draws y Brifysgol. Yn Hydref 2019 cafodd prosiect profiad gwaith llwyddiannus ei dreialu ar y cyd â Fforwm Gwasanaethau Proffesiynol ED&I a welodd myfyrwyr o Ysgol Uwchradd Cathays yn dod i'r Brifysgol a threulio amser mewn amryw adrannau yn y gwasanaethau proffesiynol. Nod y prosiect oedd codi ymwybyddiaeth o rolau gwahanol a chyfleoedd yn y Brifysgol i bobl ifanc o gefndiroedd amrywiol.

Mae'r rhwydwaith yn cwrdd yn rheolaidd i drafod gweithgareddau a wnaed yn ddiweddar ac a gynllunnir. Mae cyfarfodydd yn y gorffennol wedi cynnwys siaradwyr gwadd o bob rhan o'r Brifysgol yn ogystal â gan sefydliadau allanol a daw'r adnoddau am hyn o gyllideb benodedig gan y Brifysgol.

Grŵp Llywio Cydraddoldeb Hiliol

Cadeirydd: **Michelle Alexis**

Mae'r Grŵp Llywio Cydraddoldeb Hiliol yn edrych ar hil ar draws y Brifysgol gan nodi meysydd lle mae angen newid. Mae'r gweithgor hwn yn hyrwyddo cydraddoldeb i fyfyrwyr o gymunedau pobl dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd ethnig (BAME), drwy gynnwys ac ymgynghori ar gynlluniau, strategaethau, polisïau, ymarfer newid sefydliadol ac arweiniad y Brifysgol.

Cefnogir y Grŵp Llywio Cydraddoldeb Hiliol gan ddau weithgor, i fyfyrwyr a staff. Dewiswyd aelodau i gynghori'r grŵp oherwydd eu harbenigedd a'u profiad penodol ym maes cydraddoldeb hiliol. Mae'r Grŵp Llywio a'r Gweithgorau'n helpu i lywio a dylanwadu ar ddull y Brifysgol o drin cydraddoldeb hiliol. Mae'r Grŵp Llywio Cydraddoldeb Hiliol yn is-grŵp o Bwyllgor EDI y Brifysgol sy'n adrodd i Gyngor y Brifysgol.

Mae'n hyrwyddo diwylliant amrywiol ymhlith myfyrwyr a'r gweithlu gan geisio argymhellion ar gyfer newidiadau i ddileu rhwystrau i recriwtio, cadw a hyrwyddo. Mae'r Grŵp Llywio Cydraddoldeb Hiliol yn cefnogi'r Brifysgol i feithrin diwylliant campws cyfan lle gall holl aelodau cymuned y Brifysgol gymryd rhan a chyflawni eu potensial waeth beth fo'u hethnigrwydd, eu hil neu eu cenedligrwydd.

Cydgynhyrchu mewn hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn yr Ysgol Meddygaeth

Mae'r Ysgol Meddygaeth wedi creu a hwyluso cyfleoedd hyfforddiant i fyfyrwyr o gefndiroedd BAME, yr UE a Rhyngwladol i greu diwylliant o ddysgu gyda'n gilydd. Mae'r hyfforddiant yn annog trafodaethau yn ystod sesiynau

gan alluogi myfyrwyr i edrych ar eu daliadau a'u gwerthoedd mewn amgylchedd cefnogol ond i hefyd wrando ar eraill a deall nad yw 'fy normal i' yr un peth i bawb. Mae'r Ysgol yn defnyddio amryw ffyrdd o fynd i'r afael ag ymddygiad gwahaniaethol ac mae tri cham i'r hyfforddiant:

1. Ymarfer myfyrwyr sy'n canolbwyntio ar eu gwybodaeth am ED&I
2. Anogir myfyrwyr i hefyd ymgysylltu ag adnoddau ar-lein fel sgysiaid a chyfraniadau TED a grëwyd gan fyfyrwyr yr Ysgol Meddygaeth.
3. Gofynnir i fyfyrwyr gyflwyno 3 darn myfyrwyr sy'n ymwneud ag amcanion dysgu.

Adborth gan fyfyrwyr:

“Roedd y gweithdy'n wych.

Roedd y cyflwynwyr a oedd yn fyfyrwyr yn dda iawn yn trafod pynciau sensitif fel braint gyda chydymdeimlad, gan lwyddo i ymgysylltu â'r myfyrwyr hefyd.

“Mwynheais y rhyddid a roddwyd i ni benderfynu pa adnoddau dysgu rydym ni'n eu defnyddio a gwneud iddo ymddangos, yn gywir, fel profiad dysgu parhaus ac nid dim ond asesiad arall i'w gwblhau. Amrywiaeth gwych o adnoddau'n cael ei awgrymu, a mwynhau'r gwaith a wnaed gan fyfyrwyr yng nghyd-destun Prifysgol Caerdydd.”

“Roedd tasg EDI Blwyddyn 4 yn ddifrif - gwnaeth imi wneud llawer o'm hymchwili a'm haddysg fy hun. Doeddwn i ddim yn teimlo fel fy mod yn gweithio, roedd y pethau a ddysgais yn teimlo'n newydd ac yn bwysig iawn. Mae yna'n sicr rai pethau y bydda i'n eu defnyddio yn fy arfer yn y dyfodol, nad oeddwn i hyd yn oed wedi'u hystyried o'r blaen.



Pwyntiau Myfyrio

- Bydd datblygu prosiectau pellach yn gwella'r 'ymdeimlad o berthyn' a godwyd fel un o'r pum argymhelliad a nodwyd yn #ClosingtheGap Mai 2019. Gall ysgolion ac adrannau ddefnyddio'r enghreifftiau hyn fel ysbrydoliaeth i ddatblygu eu prosiectau pwrpasol eu hunain, i gael deialogau gonest a didwyll am hil.
- Allech chi ystyried cynnal eich Clwb Llyfrau BME+ eich hun?
- Ydy hi'n bosib cynnal eich mentrau eich hun a chodi syniadau fel pwynt trafod rheolaidd o fewn eich cymuned EDI?

Adnoddau

Adnodd	Math o Adnodd	Gwefan
True Vision	Gwybodaeth am droseddau casineb a chynghor ar sut i'w hadrodd.	http://www.report-it.org.uk/home
Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth	Adnoddau, gweithdai, sesiynau hyfforddiant ar frwydro hiliaeth	https://www.theredcard.org/
Diverse Cymru	Mae Diverse Cymru'n elusen Gymreig unigryw sy'n ymrwymedig i bobl sy'n wynebu anghydraddoldeb a gwahaniaethu.	https://www.theredcard.org/
Advance HE	Mae'r dystiolaeth hon yn cefnogi sefydliadau i waredu rhwystrau at gynnydd a llwyddiant i bob myfyriwr ac aelod o staff	https://www.ecu.ac.uk/about-us/
Prifysgolion y Deyrnas Unedig	Prifysgolion y Deyrnas Unedig yw llais prifysgolion, gan helpu i gynnal cryfder blaenllaw sector prifysgolion y DU a chefnogi aelodau eraill wrth gyflawni eu noda a'u hamcanion.	https://www.universitiesuk.ac.uk/
HERAG	Yn codi proffil cydraddoldeb iaith ar draws addysg uwch, a gwella'r ymrwymiad iddo.	https://www.ecu.ac.uk/higher-education-race-action-group-herag/
Runnymede Trust	Runnymede yw prif felin drafod annibynnol y DU ar gydraddoldeb hiliol.	https://www.runnymedetrust.org/about.html
DIMAH	Datblygu amrywiaeth mewn addysg feddygol i sicrhau y caiff safonau'r CMC eu bodloni.	https://www.dimah.co.uk/

I gael cyngor a chanllawiau cysylltwch â:

Tîm Cydymffurfiaeth a Risg, Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol
complianceandrisk@cardiff.ac.uk

“ Mae digwyddiadau diweddar, gan gynnwys llofruddiaeth George Floyd, ond wedi dangos ymhellach yr anghyfiawnderau y mae cymunedau BAME yn eu hwynebu. Nid yw mater anghydraddoldeb hiliol yn un y gellir ei ddatrys dros nos, ond ein dyletswydd ni yw brwydro anghydraddoldeb yn ein hystafelloedd dosbarth, darlithfeydd, cymdeithas ehangach a lle bynnag arall y'i gwelwn.

Mae'r mentrau hyn yn dangos ymrwymiad Prifysgol Caerdydd i gefnogi myfyrwyr BAME, yr UE a Rhyngwladol ac mae'n gam cadarnhaol i'r cyfeiriad cywir. ”

Tomos Evans,
Llywydd Undeb Myfyrwyr Caerdydd